Briff Cycling UK Cymru – etholiadau'r Senedd 2026

# Ffyrdd mwy diogel i bawb

Dylai'r gallu i gerdded, olwyno a seiclo'n ddiogel a hyderus ar hyd strydoedd a ffyrdd gwledig Cymru fod ar gael i bobl o bob oed a gallu. Yn aml mae cyflymder y traffig yn rhy gyflym, ac nid oes digon o yrwyr yn deall y rheolau a ddyluniwyd i atal gwrthdrawiadau a chadw pobl yn ddiogel. Ofn traffig moduron yw un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol sy'n atal pobl yng Nghymru rhag teithio'n llesol.

### Gofyniad maniffesto Cycling UK

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddarparu:

- **Terfynau cyflymder priodol** sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol ac yn blaenoriaethu diogelwch y bobl sy'n cerdded, seiclo, ac olwyno. Dylai hyn gynnwys gosod arwyddbyst sy'n cyfeirio at lonydd tawel mewn ardaloedd gwledig lle hoffai bobl seiclo.
- **Ymgyrch dynodedig i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn esbonio'r newidiadau a wnaed i Reolau'r Ffordd Fawr** yn 2022, yn enwedig yr egwyddor y dylid rhoi'r amddiffyniad cryfaf i'r rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf ar y ffordd.
- **Canolbwyntio ar ddiogelwch ffyrdd gwledig,** gan gynnwys gwelliannau targededig i seilwaith ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch ar y ffyrdd.
- **Targedau newydd i leihau anafiadau cenedlaethol**, gan osod llwybr at Weledigaeth Sero – rhoi terfyn ar yr holl farwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yng Nghymru.

### Y cyd-destun

Mae'n hen bryd sefydlu Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd newydd i Gymru, gyda thargedau ar gyfer gwella diogelwch ar y ffyrdd. Mae data'n dangos bod niferoedd y bobl sy'n cael eu lladd ar ffyrdd yng Nghymru wedi gostwng yn yr hirdymor, ond nid yw'r ffigurau hyn wedi gwella o gwbl yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yng Nghymru, mae dynion tair gwaith yn fwy tebygol o seiclo na menywod, ac mae menywod, pobl anabl, a phobl hŷn yn aml yn cael eu heffeithio'n fwy gan bryderon am ddiogelwch, fel ymddygiad gyrwyr, cyflymderau uchel ar ffyrdd gwledig a diffyg mannau wedi'u hamddiffyn.

Nod y newidiadau i Reolau'r Ffordd Fawr yn 2022 oedd gwella diogelwch defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed. Am y tro cyntaf, roedd y rheolau'n cynnwys "Hierarchaeth Defnyddwyr Ffyrdd" sy'n gosod mwy o gyfrifoldeb ar y

rheiny a allai achosi'r niwed mwyaf. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd yn parhau'n wael, ac mae llawer o yrwyr yn parhau i fod yn ansicr o'u rhwymedigaethau – yn enwedig mewn perthynas â goddiweddyd seiclwyr, rhoi blaenoriaeth i gerddwyr ar gyffyrdd, a phellterau pasio diogel.

## Tystiolaeth ac effaith

- Mae cyflymder uchel yn lladd ac yn atal pobl rhag seiclo. Mae cyflymder yn ffactor mewn hanner y gwrthdrawiadau lle caiff rhywun ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru. Mae pryderon am ddiogelwch yn rhwystr i seiclo. Hoffai oddeutu 50% o'r rhai a ymatebodd i arolwg yng Nghymru gyflymderau arafach, llai o gerbydau ar y ffyrdd a llwybrau mwy tawel er mwyn helpu iddynt seiclo'n fwy aml.
- Torri terfynau cyflymder ar ffyrdd gwledig: Caiff cyfran uwch o seiclwyr eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd gwledig nag ar ffyrdd trefol. Dangosodd arolwg bod y mwyafrif o bobl yn credu nad yw gyrru 60mya yn ddiogel lle gallai seiclwyr, cerddwyr neu farchogion fod yn bresennol. Cytunodd hanner ohonynt y dylid gostwng y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd unffrwd gwledig o 60mya – dim ond 19% a anghytunodd.
- Mae gostwng cyflymder yn achub bywydau: Mae tystiolaeth yn dangos bod gostwng cyflymder cerbydau, yn enwedig ar ffyrdd gwledig, yn lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau yn sylweddol.
- Buddion o ran iechyd a chynhwysiant: Mae ffyrdd mwy diogel yn annog teithio llesol corfforol, gan gefnogi amcanion iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldeb o ran trafnidiaeth.
- Budd economaidd: Mae gwella diogelwch ar y ffyrdd yn lleihau costau hirdymor i'r GIG, y gwasanaethau brys ac awdurdodau lleol. Amcangyfrifir bod y costau blynyddol sy'n wynebu cymdeithas ac economi'r DU yn werth £42 biliwn.

## I gloi

Mae ffyrdd mwy diogel yn hanfodol i gyflawni uchelgeisiau Cymru o ran diogelwch ar y ffyrdd, iechyd a chydraddoldeb trafnidiaeth. Trwy ddiweddaru terfynau cyflymder ar ffyrdd gwledig, a sicrhau y caiff Rheolau'r Ffordd Fawr eu deall a'u defnyddio, gall Cymru creu strydoedd lle mae pobl yn teimlo wedi'u hamddiffyn a'u grymuso, a lle gallant ddewis dulliau gwyrddach ac iachach o deithio.